**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**
**—**
**Reform Bill Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwygio@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwygio
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddReform@senedd.wales
senedd.wales/SeneddReform
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd

19 Ionawr 2024

Annwyl Elin

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): adroddiad Cyfnod 1

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn gwneud gwaith craffu Cyfnod 1 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Hoffem ddiolch i chi a'ch swyddogion unwaith eto am roi tystiolaeth i lywio ein gwaith.

Mae copi o adroddiad y Pwyllgor, a osodwyd heddiw, ynghlwm wrth y llythyr hwn. Hoffem dynnu eich sylw at:

- Ein hargymhellion ar gyfer Comisiwn y Senedd (argymhellion 2, 3 a 12).
- Ein hargymhellion ar gyfer y Pwyllgor Busnes (argymhellion 4, 5, 17 a 25 sy'n nodi materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, ac argymhelliad 42 sy'n galw ar y Pwyllgor Busnes i ystyried cynnig sefydlu pwyllgor newydd yn y Chweched Senedd i archwilio materion sy'n ymwneud â rhannu swyddi, neu ofyn i un o bwyllgorau presennol y Senedd sydd â chylch gwaith perthnasol ymgymryd â gwaith o'r fath.

Os yn bosibl, byddai'n ddefnyddiol cael ymateb ysgrifenedig erbyn dydd Gwener 26 Ionawr 2024 i alluogi'r Aelodau i fyfyrio arno cyn dadl Cyfnod 1.

Yn gywir

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**